WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwiliad 2009-10

Medi 2010

Awdur: Ceri Stradling Cyf: 478A2010

# Archwiliad o gyfrifon y gronfa bensiwn – adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio

## Cyngor Gwynedd

Fy mwriad fel yr Archwilydd Penodedig yw cyflwyno Adroddiad Archwilydd diamod ar gyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 4 |
| **Adroddiad Manwl** | |
| Aed i'r afael â risgiau cynllunio'r archwiliad mewn modd boddhaol | 6 |
| Nid yw datganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn yn cynnwys unrhyw gamddatganiad perthnasol | 6 |
| Addaswyd adroddiad yr archwilydd i adlewyrchu natur prisiadau buddsoddiadau ecwiti preifat | 7 |
| **Atodiadau** | |
| Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol | 9 |
| Crynodeb o'r cywiriadau i gyfrifon drafft y gronfa bensiwn y dylid tynnu sylw'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu atynt | 13 |
| Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Aelodau Cyngor Gwynedd | 14 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk

# Crynodeb

1. Mae Cyngor Gwynedd (y Cyngor) yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon a'r nodiadau cysylltiedig sy'n rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 a swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2010, heblaw am rwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion eraill ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun. Mae'n ofynnol i mi ddatgan fy marn ynghylch p'un a yw cyfrifon y gronfa bensiwn yn rhoi darlun cywir a theg.
2. Cyflwynodd y Cyngor Ddatganiad o Gyfrifon i mi ym mis Mehefin 2010 ac rwyf bellach wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon y gronfa bensiwn i raddau helaeth. Rwyf yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion mwyaf arwyddocaol sy'n codi, y credaf y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo cyfrifon y gronfa bensiwn. Rwyf eisoes wedi trafod y materion hyn gyda Dafydd Edwards, y Pennaeth Cyllid.
3. Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod cyfrifon y gronfa bensiwn yn gywir ac yn deg, ond mabwysiadaf y cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rwyf yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yng nghyfrifon y gronfa bensiwn, sef y camddatganiadau hynny a allai gamarwain unigolyn sy'n darllen y cyfrifon.
4. Y symiau meintiol a ddefnyddiaf i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i'r gronfa bensiwn yw £387,000 ar gyfer eitemau incwm a gwariant a balansau cyfalaf gweithio, a £5.092 miliwn ar gyfer balansau eraill. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.
5. Fel sy'n ofynnol o dan safonau archwilio, cyflwynaf adroddiad i chi ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r gronfa bensiwn a nodwyd mewn perthynas ag:
   - arferion cyfrifyddu a chyflwyno adroddiadau ariannol;
   - gwendidau perthnasol o ran rheolaeth fewnol;
   - materion o ddiddordeb llywodraethu sylweddol; ac
   - unrhyw faterion perthnasol eraill sy'n codi o'm harchwiliad.
6. Hefyd nodaf yn yr adroddiad manwl unrhyw gamddatganiadau a nodwyd yng nghyfrifon y gronfa bensiwn nad ydynt wedi'u cywiro o hyd, a gofynnaf iddynt gael eu cywiro. Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnaf i chi roi'r rhesymau dros beidio â'u cywiro.
7. Ceir crynodeb o'r prif gasgliadau o'm harchwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu isod ac fe'u cyflwynir yn fanylach yn yr adroddiad manwl:
   - aed i'r afael â risgiau cynllunio'r archwiliad mewn modd boddhaol;
   - nid yw datganiadau cyfrifyddu'r Gronfa Bensiwn yn cynnwys unrhyw gamddatganiad perthnasol; ac
   - addaswyd adroddiad yr archwilydd i adlewyrchu natur prisiadau buddsoddiadau ecwiti preifat.

8. Fy mwriad yw cyflwyno adroddiad archwilio diamod ar gyfrifon y gronfa bensiwn pan fydd y Cyngor wedi rhoi'r Llythyr Cynrychiolaeth a nodir yn Atodiad 1 i mi.

## Aed i'r afael â risgiau cynllunio'r archwiliad mewn modd boddhaol

9. Cyflwynodd fy strategaeth archwilio adroddiad ar y risgiau a nodwyd ar gam cynllunio'r archwiliad. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r risgiau hyn a'r ffordd y'u datryswyd, ynghyd â'r risgiau sylweddol a nodwyd yn fy adolygiad o'r datganiadau ariannol drafft.

**Arddangosyn 1: Asesiad risg yr archwiliad o'r Gronfa Bensiwn**

| Risg i'r cyfrifon | Gwasanaethau |
|---|---|
| Risg nad yw cyfrifon na nodiadau cysylltiedig y Gronfa Bensiwn yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol, asedau a rhwymedigaethau. | Profwyd trafodion a balansau cyfrifyddu a chytunwyd arnynt. |
| Risg bod y sefyllfa economaidd barhaus yn cael effaith andwyol ar werth ac adenillion buddsoddiadau. | Cyflawnodd y Gronfa dwf o 39.7% ar fuddsoddiadau yn ystod y flwyddyn a dyma oedd y gronfa a berfformiodd orau yng Nghymru yn ystod y cyfnod. |
| Risg bod achosion perthnasol o dwyll yng nghyfrifon y Gronfa Bensiwn. | Ni nodwyd unrhyw wendidau sylweddol o ran rheolaeth fewnol ac ni welwyd unrhyw arwyddion o dwyll mewn perthynas â'r addasiadau archwilio. |
| Risg bod trefniadau llywodraethu'n annigonol. | Nid yw'r Gronfa Bensiwn yn cydymffurfio'n llawn â phob un o'r safonau arfer gorau, ond mae'n mynd i'r afael â phroblemau o ran y safonau hynny lle y ceir cydymffurfiaeth rannol. |

## Nid yw datganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn yn cynnwys unrhyw gamddatganiad perthnasol

10. Mae safonau archwilio yn ei gwneud yn ofynnol i mi eich hysbysu o unrhyw fater a allai arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol, yn enwedig os wyf yn nodi'r canlynol:
    - gwendidau perthnasol o ran eich rheolaethau mewnol;
    - materion eraill o ddiddordeb llywodraethu;
    - twyll a ddrwgdybir neu a ganfyddir; ac
    - anghysondebau o ran gwybodaeth ariannol.
11. Wrth archwilio'r datganiadau cyfrifyddu rwyf hefyd yn ystyried yr agweddau ansoddol ar y broses o gyflwyno adroddiadau ariannol yn ogystal â chywirdeb y datganiadau am anghysondeb yn y wybodaeth ariannol.

12. Cyflwynaf adroddiad i chi ar yr holl gamddatganiadau nas cywirwyd, heblaw am fân gamddatganiadau amlwg, gan lunio adroddiad archwilydd sy'n gwneud sylwadau ar y canlynol:

- a yw'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Gronfa Bensiwn fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2010 a'i hincwm a'i gwariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

13. Crynhoir fy nghanfyddiadau yn Arddangosyn 2.

**Arddangosyn 2: Archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu**

| Meysydd safonau archwilio | Canfyddiadau |
|---|---|
| Rheolaethau mewnol | Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol. |
| Llywodraethu | Nid oes unrhyw faterion sylweddol i gyflwyno adroddiad arnynt. |
| Materion eraill | Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad arnynt. |
| **Archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu** | **Canfyddiadau** |
| Agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu | Mae'r gwaith o baratoi'r datganiadau cyfrifyddu yn gadarn ac yn arwain at ddatganiadau drafft o ansawdd da, a ategir gan bapurau gwaith da. |
| Camddatganiadau | Nid oes unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd.<br>Gwnaed nifer fach o ddiwygiadau i nodiadau datgelu. Mae effaith net y newidiadau wedi cynyddu'r ychwanegiadau net o ymdrin ag aelodau ac asedau net y gronfa £81,000. |
| Adroddiad archwilydd | Rwy'n bwriadu rhoi barn archwilio ddiamod.<br>Byddaf yn addasu fy adroddiad i gynnwys nodyn Pwysleisio Mater er mwyn tynnu sylw'r darllenydd at ansicrwydd mewn perthynas â phrisio buddsoddiadau ecwiti preifat. |

## Addaswyd adroddiad yr archwilydd i adlewyrchu natur prisiadau buddsoddiadau ecwiti preifat

14. Fel rhan o'i phortffolio buddsoddi, mae gan y gronfa bensiwn ddaliadau mewn cronfeydd buddsoddi ecwiti preifat (£35 miliwn). Yn y datganiadau ariannol, caiff y rhain eu prisio ar werth teg gan reolwyr y gronfa, gan ddefnyddio sail brisio briodol. Gan fod buddsoddiadau ecwiti preifat, ar y cyfan, yn cael eu crisialu drwy werthu'r busnes cyfan neu drwy gynnig cyfranddaliadau ynddo, bydd gwerth y busnes cyfan yn sail i amcangyfrif gwerth teg buddsoddiad yn y busnes hwnnw. Fodd bynnag, mae'r prisiadau sy'n deillio o hyn yn oddrychol gan eu bod yn seiliedig ar amcangyfrifon a dyfarniadau sy'n edrych i'r dyfodol. Gall y gwerthoedd gwireddadwy fod yn wahanol i'r gwerthoedd teg a gall y symiau fod yn berthnasol.

15. Wrth gwblhau ein gwaith archwilio rydym wedi adolygu'r datganiadau ariannol diweddaraf a archwiliwyd sydd ar gael o'r cronfeydd. Mae'r adroddiadau archwilio

ar y rhain yn amlygu'r ansicrwydd cynhenid sy'n gysylltiedig â phrisio buddsoddiadau o'r fath ac felly maent yn cynnwys nodyn pwysleisio mater sy'n cyfeirio at yr ansicrwydd. Rwyf wedi ystyried effaith hyn ar fy marn archwilio.

16. Er bod fy marn archwilio yn ddiamod yn hyn o beth, oherwydd y gallai'r ansicrwydd o ran prisio buddsoddiadau ecwiti preifat fod yn berthnasol, rwyf wedi cynnwys nodyn 'pwysleisio mater' o dan fy marn archwilio, sy'n tynnu sylw'r darllenydd at yr ansicrwydd hwn. Mae'r farn archwilio yn Atodiad 3 yn cynnwys y geiriad ar gyfer y paragraff ychwanegol.

Atodiad 1

## Llythyr Cynrychiolaeth

Anthony Barrett
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

27 Medi 2010

Annwyl Mr Barrett

## Sylwadau yn ymwneud â chyfrifon 2009-10

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'r archwiliad o gyfrifon a nodiadau cysylltiedig Cronfa Bensiwn Gwynedd (y Gronfa Bensiwn) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 er mwyn mynegi barn o ran pa un a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg, ym mhob agwedd berthnasol, o drafodion ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 a swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2010, ac eithrio rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion eraill ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd) a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig - Datganiad o'r Arfer a Argymhellir 2009 (y SoRP).

### Sylwadau cyffredinol

Mae'r holl drafodion a gynhaliwyd gan y Gronfa Bensiwn wedi'u hadlewyrchu a'u cofnodi'n briodol yn y cofnodion cyfrifyddu.

Mae'r Gronfa Bensiwn wedi cydymffurfio â phob agwedd ar y cytundebau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i addasu'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig neu ddatgelu manylion ynddynt.

Nid oes yng nghyfrifon y gronfa bensiwn na'r nodiadau cysylltiedig gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau.

Sicrhawyd bod pob llyfr cyfrifon a dogfen ategol a chofnodion pob cyfarfod o'r Gronfa Bensiwn ar gael i chi.

Nid oes gan y Gronfa Bensiwn gynlluniau na bwriadau a all newid yn berthnasol werth cario neu ddosbarthiad buddsoddiadau, asedau a rhwymedigaethau a adlewyrchir yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Mae'r dulliau o fesur, gan gynnwys y rhagdybiaethau cysylltiedig, a ddefnyddiwyd i bennu gwerthoedd teg yn briodol ac wedi eu cymhwyso'n gyson. Mae'r datgeliadau sy'n ymwneud â gwerthoedd teg yn gyflawn ac yn briodol.

Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a chyda'i gilydd, i'r datganiadau cyfrifyddu cyfan.

## Buddsoddiadau

### Cyffredinol

Roedd yr holl fuddiannau a gynhwyswyd yn y datganiadau o asedau net yn bodoli ar ddyddiad y datganiad o asedau net ac yn eiddo i'r Gronfa Bensiwn, ac roeddent yn rhydd o unrhyw hawlrwym, llyffethair neu arwystl, ac eithrio fel y datgelir yn y cyfrifon. Mae'r datganiad o asedau net yn cynnwys pob buddsoddiad sy'n eiddo i'r Gronfa Bensiwn. Adolygwyd buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn ar gyfer gostyngiad mewn gwerth ac adlewyrchwyd unrhyw ostyngiad mewn gwerth o'r fath yn y cyfrifon yn unol â hynny.

### Ecwiti Preifat

Mae ecwiti preifat wedi mynnu sylw cronfeydd pensiwn fel math o fuddsoddiad oherwydd bod canlyniadau wedi'u profi yn gyson uchel, tra'n symud mewn ffordd cwbl wahanol i ecwiti a bondiau traddodiadol, a thrwy hynny yn gwasgaru'r proffil risg. Ym Mehefin 2006, yn dilyn derbyn cyngor gan ymgynghorwyr y Gronfa Bensiwn yn Hymans Robertson, penderfynodd y Pwyllgor Pensiynau fuddsoddi 5% o Gronfa Bensiwn Gwynedd mewn Ecwiti Preifat. Yna ym Mawrth 2007, yn dilyn y broses tendro a chyfweld, penodwyd Partners Group fel rheolwr Ecwiti Preifat ar gyfer y Gronfa Bensiwn.

Oherwydd natur y math yma o fuddsoddiad, mae cyfalaf sydd wedi'i fuddsoddi mewn ecwiti preifat (cyfalaf mentro neu prynu cwmnïau cyfan) wedi'i gloi i fyny am nifer o flynyddoedd cyn i'r gronfa weld dychweliadau, ac nid yw buddsoddwyr yn cael tynnu 'nôl. Nid yw'n bosib mesur dychweliadau'n flynyddol ac nid yw meincnodau yn bodoli. Yr unig bwyntiau pendant ar gyfer prisio buddsoddiadau yw pryd codwyd y cyfalaf yn wreiddiol a phryd werthir yr asedau yn y pen draw.

Yn amlwg, nid oes marchnad hylifol ar gyfer buddsoddiadau ecwiti preifat (trwy ddiffiniad), ac mae ansicrwydd cynhenid yn gysylltiedig gyda'u gwerth. O ganlyniad, bydd yr amcangyfrif o werth teg buddsoddiadau ecwiti preifat o hyd yn wahanol o'u "gwerth gwireddadwy" ar unrhyw amser penodol, ac am resymau technegol deallaf bydd raid i'r archwiliwr allanol gyfeirio'n flynyddol at y gwahaniaeth yma.

### Asedau cyfredol

O'u gwireddu yn ystod gweithrediadau arferol y Gronfa Bensiwn disgwylir i'r asedau cyfredol yn y datganiad o asedau net gynhyrchu o leiaf gymaint ag y datgenir ar eu cyfer. Gwnaed darpariaeth ddigonol yn erbyn pob swm sy'n ddyledus i'r Gronfa Bensiwn ac y gwyddys ei fod, neu y gellir disgwyl y bydd, yn anadenilladwy.

Ni cheir unrhyw drefniadau balans digolledu ffurfiol nac anffurfiol gydag unrhyw rai o'n cyfrfin arian parod na buddsoddi.

## Rhwymedigaethau

### Cyffredinol

Mae pob rhwymedigaeth wirioneddol a rhwymedigaeth wrth gefn wedi ei chofnodi a'i datgelu fel y bo'n briodol, yn ogystal â phob gwarant yr ydym wedi ei rhoi i drydydd partïon.

Nid oes ymgyfreitha yn yr arfaeth a allai beri colled sylweddol i'r Gronfa Bensiwn, ac nad yw wedi ei ddatgelu yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, naill ai fel rhwymedigaethau cyfredol neu rwymedigaethau wrth gefn.

### Canlyniadau

Ac eithrio fel y datgelwyd yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, ni fu i drafodion o fath nas cynhelir fel arfer gan y Gronfa Bensiwn, nac amgylchiadau eithriadol neu anghylchol, gael effaith sylweddol ar y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn.

### Rheolaeth fewnol

Cydnabyddaf fy nghyfrifoldeb am gynllunio a gweithredu rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod gwallau. Ni fu:

- afreoleidd-dra yn ymwneud â rheolwyr y mae ganddynt rolau pwysig yn y system rheolaeth cyfrifyddu fewnol;
- afreoleidd-dra yn ymwneud â chyflogeion eraill a allai gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol; a
- sylwadau gan asiantaethau rheoleiddio yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth ag arferion adrodd ariannol neu ddiffygion ynddynt a allai gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.

## Digwyddiadau ôl-fantolen

Ac eithrio fel y datgelwyd yng nghyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig, ni fu newidiadau perthnasol ers dyddiad y datganiad o asedau net sy'n effeithio ar rwymedigaethau ac ymrwymiadau, ac ni fu digwyddiadau na thrafodion sydd, er eu bod wedi eu heithrio'n briodol o gyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig, yn ddigon pwysig fel y dylent fod wedi cael eu dwyn i sylw'r archwilydd.

## Sylwadau gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am roi darlun teg o gyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi cyfrifon a nodiadau cysylltiedig y gronfa bensiwn, a gymeradwywyd gan Bwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd ar 27 Medi 2010.

Rydym wedi datgelu i chi bob achos hysbys neu bosibl o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau y dylid bod wedi ystyried ei effeithiau wrth baratoi cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig.

Nid oes unrhyw drafodion perthnasol eraill â phartïon cysylltiedig (fel y'u diffiniwyd gan FRS 8 a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir), heblaw am y rhai a gofnodwyd ac a ddatgelwyd yng nghyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am gynllunio a gweithredu rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll, ac rydym wedi datgelu canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall cyfrifon y gronfa bensiwn fod wedi eu cam-ddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.

Rydym wedi datgelu i chi yr hyn a wyddom am bob honiad o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar gyfrifon y Gronfa Bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig y cafodd y Gronfa Bensiwn wybod amdanynt gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.

Rydym wedi datgelu i chi yr hyn a wyddom am dwyll neu dwyll a amheuir sy'n effeithio ar y Gronfa Bensiwn yn ymwneud â'r canlynol:

- y rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu;
- cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; ac
- eraill lle y gallai'r twyll effeithio'n berthnasol ar y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Cadarnhawn, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, y gwneir y sylwadau uchod ar sail ymholiadau rheolwyr ac aelodau o staff sydd â gwybodaeth a phrofiad perthnasol (a, lle y bo hynny'n briodol, drwy archwilio dogfennaeth ategol) sy'n ddigon i'n bodloni y gallwn gyflwyno'n briodol bob un o'r sylwadau uchod i chi.

**DAFYDD L EDWARDS**
**PENNAETH CYLLID**

Dyddiad

**CYNGHORYDD JOHN PUGHE ROBERTS**
**CADEIRYDD PWYLLGOR ARCHWILIO**

Dyddiad

## Atodiad 2

# Crynodeb o'r cywiriadau i gyfrifon drafft y gronfa bensiwn y dylid tynnu sylw'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu atynt

| Natur y cywiriad | | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| Ychwanegiadau Net o ymdrin ag aelodau Datganiad y Gronfa: | | I gydnabod incwm a ddilëwyd yn flaenorol. |
| Cynyddu'r Cyfraniadau a dderbyniwyd | £133,000 | |
| Nodyn 6 Cyfraniadau Derbyniadwy a Nodyn 11 Dyledwyr Amrywiol: | | |
| Cynyddu Cyfraniadau derbyniadwy | £133,000 | |
| Adenillion ar y Datganiad Buddsoddiadau: | | I wneud yn iawn am ddyraniad gwallus o'r lleihad yn muddosddiad banc Heritable. |
| Lleihau incwm buddsoddiad | £52,000 | |
| Nodyn 6 dyledwyr arian mân: | | |
| Lleihau dyledwyr mewnol | £52,000 | |
| Nodyn 3 Prisiad yr Actiwari: Ychwanegwyd naratif i ddatgelu gwybodaeth am gyhoeddiad yng Nghyllideb Frys Mehefin 2010 ar sail cynnydd ym mhensiynau'r sector cyhoeddus yn y dyfodol. | | I hysbysu'r darllenydd am yr effaith yn y dyfodol ar brisiad nesaf yr actiwari. |
| Nodyn 6 Buddiannau sy'n Daladwy | | I ddosbarthu buddiannau sy'n daladwy yn gywir mewn perthynas â Phwyllgor y Llys Ynadon. |
| Lleihau Cyrff Rhestredig | £292,000 | |
| Cynyddu Cyflogwyr heb unrhyw gyfranwyr | £292,000 | |
| Nodyn 13 Pryniannau a Gwerthiannau o Fuddsoddiadau: | | I adlewyrchu'r pryniannau yn Nodyn 13 yn gywir. |
| Cynyddu Pryniannau o: | | |
| Ecwitïau'r DU | £10,437,000 | |
| Ecwitïau Tramor | £90,369,000 | |
| Gwarannau Llog Sefydlog Eraill y DU | £1,000 | |
| Cyfanswm | £100,807,000 | |

Atodiad 3

## Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Aelodau Cyngor Gwynedd

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- Cyngor Gwynedd; a
- Chronfa Bensiwn Gwynedd.

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, y Datganiad Symud ar Falans Cronfa'r Cyngor, Datganiad o Gyfanswm yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig, Mantolen, Datganiad Llif Arian Parod, Cyfrif Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a'r Datganiad Symud ar Falans y Cyfrif Refeniw Tai. Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad o Asedau Net. Paratowyd y datganiadau cyfrifyddu o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir yn y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Gyngor Gwynedd yn unig yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac nid at unrhyw ddiben arall, fel y nodir yn y *Datganiad o Gyfrifoldebau* a baratowyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.

## Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol

Caiff cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, gan gynnwys cyfrifon y gronfa bensiwn, yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2009 eu nodi yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon).

Nodaf a yw'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, yn fy marn i, yn rhoi darlun cywir a theg, yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2009:

- sefyllfa ariannol y corff llywodraeth leol a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn; a
- thrafodion ariannol y gronfa bensiwn yn ystod y flwyddyn a swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa, ar wahân i rwymedigaethau i dalu pensiynau a budd-daliadau ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun.

Adolygaf p'un a yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007. Nodaf os nad yw'n cydymffurfio ag arferion cywir a nodir gan CIPFA/SOLACE neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall rwyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, a yw'r Datganiad Llywodraethu yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolaethau. Nid yw'n ofynnol i mi ychwaith lunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y corff llywodraeth leol na'i weithdrefnau o ran risgiau a rheolaeth.

Rwyf yn darllen y wybodaeth arall a gyhoeddir gyda'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, ac yn ystyried p'un a yw'n gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a archwiliwyd a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys y Rhagair Esboniadol yn unig. Rwyf yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig. Nid yw fy nghyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

## Sail y farn archwilio

Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, y Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys ystyried, ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan y corff llywodraeth leol wrth baratoi'r datganiadau cyfrifyddu a ph'un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r corff llywodraeth leol a'r gronfa bensiwn, yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais fy archwiliad a'i gynnal er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau a oedd yn angenrheidiol, yn fy marn i, er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i mi allu rhoi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu afreoleidd-dra neu wall arall. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd gwybodaeth yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

## Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2010 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny, yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

## Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd

Yn fy marn i mae cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010, a swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa, heblaw am rwymedigaethau i dalu pensiynau a budd-daliadau ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun, yn unol â'r Datganiad o Arfer a Argymhellir ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2009.

## Nodyn Pwysleisio Mater

Wrth lunio fy marn ddiamod ar y datganiadau ariannol, ystyriais addasrwydd y datgeliadau a wnaed yn y datganiad o asedau net a nodyn 13 ar fuddsoddiadau ecwiti preifat a gaiff eu cario ar eu gwerth teg o £35 miliwn. Oherwydd yr ansicrwydd cynhenid sy'n gysylltiedig â gwerth buddsoddiadau o'r fath, sy'n deillio o'r ffaith nad oes marchnad hylifol, gall gwerth teg y buddsoddiadau hyn fod yn wahanol i'w gwerthoedd gwireddadwy. Gallai'r gwahaniaeth fod yn un perthnasol.

## Casgliad ar y trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau

Cyflwynir fy nghasgliad o ran trefniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 ar wahân yn y Llythyr Archwilio Blynyddol cyhoeddedig.

## Tystysgrif cwblhau

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

| | |
|---|---|
| **Archwilydd Penodedig:** | Anthony Barrett |
| **Cyfeiriad:** | Uned 4<br>Evolution<br>Pentref Busnes Lakeside<br>Parc Dewi Sant<br>Ewlo<br>CH5 3XP |

**Llofnod:** Dyddiad**:** 30 Medi 2010

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd  CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk